NORTH WALES LABC BUILDING EXCELLENCE AWARDS 2016
GWOBRAU RHAGORIAETH ADEILADAU LABC GOGLEDD CYMRU 2016

## Best Volume Developer

White Lion Public House, Chester Road, Penymynydd

## *Datblygwr Sylweddol Gorau*

*Tafarn y Llew Gwyn, Ffordd Caer, Penymynydd,*

## Redrow Homes









The development comprises the construction of 56 individual, Architect designed residential units having varying layouts and storeys. Due to the prestigious location of the site on the outskirts of the village, a consistent high standard of workmanship was required. An excellent relationship was developed with the contractor who ensured the high standards were maintained throughout the project. A flexible daily inspection regime was agreed to ensure the work was inspected with the site manager ensuring, wherever possible, the inspector was able to carry out multiple inspections during one visit. Despite the hectic nature of volume house building, this site always gave the impression of being organised and well run, with great attention paid to health and safety of site operatives and the public. Materials were stored in a clean and secure compound on site in an appropriate manner. The developers housing range for this site has been designed to improve energy efficiency and meet the challenge of rising building performance standards. A range of energy and water resource minimisation features were incorporated in the design. The developer also considered the ethical environmental performance of its suppliers. A partnering approach was adopted that clearly set out the expectations of all parties and covered issues such as sourcing of materials, transportation and delivery, packaging, health and safety, workforce competency and training and welfare. As can be seen from the photographs, the completed site has enhanced the overall appearance of an already idyllic setting. The developer has built up an excellent understanding with Building Control over a number of years and consistently delivers high quality work in all aspects of the build programme. It is now expected that their work will achieve the same high standards on all sites and this site was no exception.

Mae'r datblygiad yn cynnwys adeiladu 56 o unedau preswyl unigol a ddyluniwyd gan bensaer gydag amrywiol gynlluniau a lloriau. Oherwydd lleoliad mawreddog y safle ar gyrion y pentref, roedd safon uchel gyson o grefftwaith yn ofynnol. Datblygwyd perthynas ragorol gyda'r contractwr a sicrhaodd bod y safonau uchel yn cael eu cynnal drwy gydol y prosiect. Cytunwyd ar drefn archwilio dyddiol hyblyg er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei archwilio gyda rheolwr y safle gan sicrhau, lle bynnag y bo modd, bod yr archwiliwr yn gallu cynnal nifer o archwiliadau yn ystod un ymweliad. Er gwaethaf natur brysur adeiladu tai niferus, roedd y safle hwn bob amser yn rhoi'r argraff ei fod yn cael ei drefnu a'i redeg yn dda, gyda sylw mawr i iechyd a diogelwch y gweithwyr safle a'r cyhoedd. Roedd deunyddiau yn cael eu storio yn lân ac yn ddiogel ar y safle mewn modd priodol. Mae'r ystod o dai gan y datblygwr ar gyfer y safle hwn wedi ei gynllunio i wella effeithlonrwydd ynni a diwallu'r her o safonau perfformiad adeiladu cynyddol. Roedd ystod o nodweddion lleihau adnoddau dŵr ac ynni wedi eu hymgorffori yn y dyluniad. Roedd y datblygwr hefyd yn ystyried perfformiad amgylcheddol moesegol ei gyflenwyr. Mabwysiadwyd dull partneriaeth a oedd yn nodi'n glir disgwyliadau pawb ac yn cwmpasu materion megis tarddiad deunyddiau, cludiant a darparu, pecynnu, iechyd a diogelwch, cymhwysedd y gweithlu a hyfforddiant a lles. Fel y gellir gweld o'r lluniau, mae'r safle ar ôl ei gwblhau wedi gwella ymddangosiad cyffredinol lleoliad sy'n ddelfrydol eisoes. Mae'r datblygwr wedi meithrin dealltwriaeth ragorol gyda Rheoli Adeiladu dros nifer o flynyddoedd ac yn gyson yn cyflwyno gwaith o ansawdd uchel ym mhob agwedd ar y rhaglen adeiladu. Bellach disgwylir y bydd eu gwaith yn cyrraedd yr un safonau uchel ar bob safle ac nid oedd y safle hwn yn eithriad.